Pwyllgor Rhanbarth y Canolbarth **MID 05-01(p.5)**

Dyddiad: Dydd Gwener 7 Rhagfyr 2001
Amser: 10.30am hyd 1.00pm
Lleoliad: Theatr Brycheiniog, Aberhonddu

Dyfodol newydd i'r diwydiant croeso

TWRISTIAETH A'R DIWYLLIANT CYMRAEG

Allan Wynne Jones

Arwyddocad twristiaeth.

Mae twristiaeth yn **hanfodol bwysig** i economi Cymru, gan gyfrannu'n flynyddol £2 biliwn o wariant uniongyrchol. Mae hynny'n cynrychioli 7% o GDP ac yn creu 10% o'n swyddi, cyfanswm o tua 100,000. Yn yr ardaloedd gwledig mae'r diwydiant yn arbennig o werthfawr, lle mae'n gymorth i lawer o gyfleusterau manwerthu, hamdden a thrafnidaiaeth sydd o fudd i'r boblogaeth leol. Yn y gorllewin, lle ceir y canrannau uchaf o siaradwyr Cymraeg, y diwydiant croeso yw'r mwyaf o ran trosiant a chyflogaeth. Cymerir tua 10 miliwn o wyliau a chymaint a 25 miliwn o deithiau dydd yng Nghymru bob blwyddyn gan breswylwyr y DG. Dim ond tua 800,000 o ymwelwyr tramor a ddaw yma'n flynyddol.

Twristiaeth yw un o'r prif sectorau sy'n cynnig **llwyfan masnachol** i'r iaith a'r diwylliant Cymraeg. Yn ei dro mae'r diwylliant Cymraeg yn cyfrannu'n anfesuradwy i gynnal delwedd o gyrchfan ddiddorol, amrywiol ac unigryw. Er hynny mae siaradwyr Cymraeg yn dal i fynegi amheuon dwys am ddylanwadau negyddol twristiaeth. Mae hyn yn cael effaith ddifrifol ar dybiaethau siaradwyr Cymraeg ynglyn a thwristiaeth, ar eu parodrwydd i gyfranogi yn y sector, ar allu busnesau i ddarparu gwasanaethau dwyieithog yn ogystal a'r defnydd a wneir o'r diwylliant Cymraeg yn gyffredinol mewn twristiaeth.

Effaith twristiaeth ar yr iaith.

Cafwyd tystiolaeth gan arbenigwyr am ddrwg effeithiau'r diwydiant ar yr iaith ers tua hanner canrif, sawl un ohonynt yn tynnu sylw at y **cyswllt rhwng twristiaeth a'r mewnlifiad.**

- Mor gynnar a 1956 nododd y daearyddwr J.Gareth Thomas: *'...Not only does English become the essential commercial language for Welsh people living in these regions, but their population also contains a considerable English element, not merely connected with the tourist industry, but purely as a residential class of retired people who at their time of life are not likely to learn a new language.*'

- Dywedodd Bowen a Carter ym 1974: *'Tourism...in attracting English entrepreneurs and foreign workers and bringing in its train second home ownership and retirement must be regarded as a strong anglicising agent.'*

- Prif ganfyddiad adroddiad ECTARC ym 1988 oedd bod y mwyafrif o Gymry yn croesawu twristiaeth am resymau economaidd, ond bod lleiafrif ddeallus a dylanwadol yn gweld nifer o broblemau diwylliannol yn codi o'r diwydiant. Ystyriwyd bod dylanwadau eraill fel mewnfudo a'r cyfryngau torfol yn fwy dinistriol i'r Gymraeg na thwristiaeth.

- Adlewyrchwyd y canfyddiadau uchod mewn arolwg barn ymhlith cymdeithasau lleol fel rhan o raglen arloesol Croesawiaeth Mon ym 1993. Honnwyd bod y diwydiant ymwelwyr a'r mewnfudo cysylltiedig yn fygythiad i'r diwylliant, bod angen Cymreigio'r sector a bod rhaid addysgu ymwelwyr am Gymru.

- Yna eleni cyhoeddwyd ymchwil gwyddonol ar sail gwaith maes trylwyr ar 'Effeithiau Twristiaeth ar yr Iaith Gymraeg yn Ngogledd-Orllewin Cymru' gan y Ganolfan Uwchefrydiau Cymraeg a Cheltaidd, Aberystwyth. *'Prif gasgliad yr adroddiad yw cadarnhau amheuon ysgolheigion a charedigion y Gymraeg ar hyd y blynyddoedd fod y diwydiant croeso a'i sgil effeithiau wedi cyfrannu at enciliad yr iaith ac yn parhau i fygwth ei pharhad fel iaith gymunedol hyfyw.....Dengys yr astudiaeth fod cryn anfodlonrwydd o fewn ein cymunedau derbyn fod y diwydiant croeso yng Nghymru mor Seisnig ei naws a'i iaith. Hyn i raddau helaeth, ynghyd a datblygiadau anghydnaws megis meysydd carafanau a thai haf, a fu'n gyfrifol am ddrwgdybiaeth y gymdeithas Gymraeg o'r diwydiant a'i amharodrwydd i ymhel a'r maes.....Dengys yr astudiaeth hon fod sgil-effeithiau twristiaeth yn enwedig o safbwynt denu gorlif o fewnfudwyr di-Gymraeg...yn fygythiad difrifol iawn i ddyfodol a pharhad yr iaith Gymraeg'*, medd yr awduron, Dylan Phillips a Catrin Thomas.

Y Gymraeg o fewn y sector.

Un canlyniad penodol o'r amheuon a amlygwyd uchod yw bod yna **brinder o siaradwyr Cymraeg** yn y sector, yn enwedig mewn swyddi rheolaeth. Dangosodd ystadegau cyflogaeth Cyfrifiad 1991 mai dim ond 13.9% o weithwyr yn y sector Gwestai ac Arlwyo oedd yn ddwyieithog, o gymharu a 16.9% yn y gweithlu cyfan. Os edrychir ar swyddi rheolaeth neu berchnogaeth o fewn yr un sector, mae'r ganran sy'n ddwyieithog yn llai fyth. Roedd hyn yn arbennig o amlwg yn hen siroedd Dyfed a Gwynedd lle mae dwysder y diwydiant croeso yn cyd-fodoli a chanran uchel o siaradwyr Cymraeg. Felly amcangyfrifir mai dim ond 8,170 o'r gweithlu gwestai ac arlwyo sy'n medru'r iaith.

Canlyniad arall o ddiffyg presenoldeb siaradwyr Cymraeg yn y diwydiant croeso yw mai cymharol **ychydig o ddefnydd o'r iaith** a wneir mewn gwestai, tai bwyta, tafarndai ac ati, un

ai ar lafar neu'n weladwy, er y cynnydd yn y nawdegau. Yn yr un modd ychydig o fusnesau sy'n cyflwyno unrhyw elfennau o'r diwylliant cynhenid yn eu gwasanaethau. Mae hyn yn ei dro yn llesteirio ymdrechion y Bwrdd Croeso i bortreadu Cymru fel gwlad wahanol, ddeniadol, unigryw ac yn rhannol egluro'r nifer fechan o ymwelwyr tramor a ddaw i Gymru.

Gellir casglu felly bod y sefyllfa a ddisgrifir uchod yn un **ddifrifol a digalon** o safbwynt yr iaith Gymraeg, y diwydiant croeso ei hun, y ddelwedd o Gymru a'r economi Cymreig yn gyffredinol.

Atebion i'r broblem.

Awgryma adroddiad Canolfan Geltaidd Aberystwyth bod angen chwilio am **atebion** i'r diffygion **mewn tri maes**: iaith, mewnfudo a thwristiaeth ei hun. Ystyrir bod llawer iawn o'r mesurau i ddeall, mesur ac atal y mewnlifiad yn ogystal a pholisiau i addysgu a chymhathu mewnfudwyr y tu allan i faes y nodyn yma, ond gellir cefnogi'r ystod eang o argymhellion deallus ac ystyrlon o safbwynt cynllunio a'r farchnad dai yn astudiaeth y Ganolfan Geltaidd. Yn yr un modd mae'r rhan helaeth o argymhellion y gellir eu cynnig ym maes iaith yn perthyn i gynllunio ieithyddol yn gyffredinol. Felly mae'r argymhellion dilynol yn canolbwyntio ar fesurau penodol i ymestyn y defnydd o'r iaith a'r diwylliant Cymraeg o fewn y diwydiant croeso ei hun.

O safbwynt twristiaeth yn benodol, mae'r prif atebion i'r broblem yn disgyn yn gyffredinol i ddau gategori: rhai sy'n ceisio **lleihau a rheoli drwg effeithiau'r diwydiant** ac eraill sy'n ceisio **Cymreigio'r sector** ei hun. Gallai'r cyfuniad yma o bolisiau rheolaeth mwy bwriadol a mesurau datblygu creadigol drawsnewid y sector, gan ddyrchafu tybiaethau Cymry am dwristiaeth, sbarduno diddordeb newydd mewn cyfranogaeth a chreu cyfleoedd cyflogaeth tecach i bobl ifainc yn eu cymunedau.

Er bod astudiaeth y Ganolfan Geltaidd wedi gwella ein dealltwriaeth o'r gyd-berthynas rhwng twristiaeth a'r diwylliant ieithyddol mae eto angen mwy o ymchwil ymarferol - mewn ardaloedd eraill, mewn meysydd penodol ac, yn arbennig, i ddylanwad gwahanol fathau o dwristiaeth a graddfeydd o ddwysder y diwydiant. Yna mae angen ymchwil anthropolegol ar y cysylltiadau uniongyrchol rhwng siaradwyr Cymraeg, mewnfudwyr a gweithwyr di-Gymraeg yn y diwydiant er mwyn deall y prosesau cymdeithasegol sydd ar waith. Ond yn bwysicaf oll mae galw brys am ymchwil ymarferol i ddatblygu model o **asesiad ieithyddol a diwylliannol** fyddai'n cyfateb i werthusiad amgylcheddol, ar gyfer datblygiadau twristaidd newydd. Yr her fyddai creu model asesu sy'n caniatau datblygwyr, mawr a bychain, i ddeall natur y diwylliant lleol, gweithredu awdit iaith, datblygu polisiau recriwtio teg, gwerthfawrogi'r manteision o brynu'n lleol ac egluro sut i ddefnyddio'r diwylliant cynhenid yn greadigol yn eu gwasanaethau. Byddai gweithredu asesiad o'r fath fel amod cyn derbyn unrhyw gymorthdaliadau cyhoeddus hefyd yn fodd i godi ymwybyddiaeth o fewn y sector am effeithiau mwyaf andwyol y diwydiant.

Arwyddocad y diwylliant Cymraeg.

Cadarnhaodd y Bwrdd Croeso gymaint a 30 mlynedd yn ol ei fod yn bwysig i barchu ac i gynnal y diwylliant cynhenid, pe bai ddim ond i ddenu mwy o ymwelwyr tramor. Mewn adroddiad a gyhoeddwyd ar noswyl Deddf Datblygu Twristiaeth 1969 (y ddeddf a sefydlodd y Bwrdd statudol) nodwyd: *'The uniqueness of Wales's history, language, culture,customs and folklore are valuable assets, essential to the sustaining of a well balanced tourism industry.....It [tourism] can help to secure wider acceptance of the need to retain Wales's special character and traditions, can give "Welshness" a new respectability and nurture the further development of national culture. This is [another] argument in favour of retaining Welsh as a living language'*

Dros y blynyddoedd ers hynny mae pob dogfen strategol a gyhoeddwyd gan y Bwrdd wedi **tanlinellu gwerth yr iaith a'r diwylliant.** Yn wir mae'r strategaeth ddiweddaraf 'Cyflawni Ein Potensial' yn frith o gyfeiriadau adeiladol am arwyddocad yr iaith, diwylliant, hunaniaeth a'r ddelwedd genedlaethol i lwyddiant twristiaeth Cymru. Mae'r dyfyniadau dilynol yn nodweddiadol: *'Mae twristiaeth yn gwerthfawrogi diwylliant, traddodiadau ac iaith arbennig Cymru ac yn ychwanegu pwysau at y ddadl am eu cadw.....Un o brif asedau Cymru fel cyrchfan twristiaeth yw ei hiaith, diwylliant a threftadaeth arbennig.*'

Eto mae'r strategaeth yn codi amheuon ynglyn a gwerth y Gymraeg yn y farchnad Seisnig: *'Dynoda ymchwil bod yr iaith Gymraeg yn ased positif i lawer o farchnadoedd tramor ond yn y DG fe'i hystyrir yn aml mewn termau negyddol.'* Yna: *'Mae'r iaith Gymraeg yn ganolog i lawer o'i thraddodiadau a'i digwyddiadau y mae angen eu hyrwyddo a'u gwneud yn fwy hygyrch i gynulleidfaoedd nad ydynt yn siarad Cymraeg os ydym am wella lefelau ymwybyddiaeth a gwerthfarogiad.'*

Mae 'Datblygu Ein Potensial' heb os yn cynnig **cyfle a sylfaen** i weithredu amrywiaeth o brosiectau sy'n defnyddio'r diwylliant Cymraeg mewn modd creadigol a diffuant, gan gyfrannu i'r broses o ddatblygu delwedd (a'r sylwedd) o wlad unigryw a deniadol. Gan mai'r Bwrdd Croeso sydd a'r prif gyfrifoldebau statudol am ddatblygu a rheoli twristiaeth, mae llawer iawn o'r argymhellion isod yn cyffwrdd gwaith y Bwrdd, un ai'n hollol neu'n anuniongyrchol.

Cafwyd tystiolaeth bellach o'r ffaith bod gwerthfarogiad sylweddol ymhlith ymwelwyr o'n hiaith a'n diwylliant yn arolwg cychwynnol rhaglen Croesawiaeth Mon ym 1993. Pan holwyd tua 120 o ymwelwyr i'r ynys am eu diddordeb mewn iaith a diwylliant, dywedodd treian bod ganddynt **ddiddordeb sylweddol** a threian arall fod ganddynt rywfaint o ddiddordeb **yn y diwylliant lleol.** Amlygwyd hyn yn enwedig ymhlith ymwelwyr tramor, pobl ifainc, rhai efo addysg uwch a theithwyr gwariant uchel. Roeddent yn teimlo yr hoffent weld a chlywed mwy o'r iaith yn enwedig mewn siopau, tafarndai, atyniadau a thai bwyta.

Prif gamau datblygu.

Mae'n amlwg felly bod yna **fwlch sylweddol rhwng y *potensial*** ar gyfer y diwylliant o fewn y sector **a *phresenoldeb* y Gymraeg** yn y diwydiant ar hyn o bryd. Cymaint yw'r gagendor fel bod **angen 'newid naid'** yn ein hymdrechion i gymreigio twristiaeth os yw hynny i gael unrhyw ganlyniadau cadarnhaol ar ddyfodol yr iaith. Gwelir felly bod gweithgareddau unigol fel grantiau arwyddion dwyieithog 'Naws am Le' y Bwrdd Croeso neu ymgyrch 'Ennill Tamaid' y Bwrdd Iaith, er yn ganmoladwy, ymhell o fod yn ddigon i wyrdroi'r sefyllfa begynnol a ddarlunir uchod. Yn fyr, mae angen newid natur twristiaeth yng Nghymru os ydym am sicrhau bod y diwydiant yn gymorth yn hytrach na'n fygythiad i'n diwylliant.

Hyd yn hyn yr ymgais fwyaf sylweddol i geisio cryfhau'r cyswllt rhwng y byd Cymraeg a'r diwydiant croeso oedd **Croesawiaith**, rhaglen a weithredwyd rhwng 1997 a 2000 gan Menter a Busnes, ac a noddwyd gan y Bwrdd Croeso a chynllun Interreg yr UE. Llwyddodd y rhaglen i godi ymwybyddiaeth o botensial y Gymraeg ymhlith nifer helaeth o berchnogion busnes: gwnaethpwyd cyflwyniadau i 1,500, gohebwyd a 700, ffoniwyd 400, mynychodd cant a mwy weithdai diwylliannol a darparwyd cyngor busnes i dros 80. Cyhoeddwyd hefyd 40 mil o lyfrynnau'n hyrwyddo'r diwylliant Cymraeg mewn modd gwreiddiol ac arloesol, yn ogystal a gwefan gysylltiedig. Sbardunwyd nifer o brosiectau fydd yn cymeryd misoedd a mwy i'w gwireddu. Ond yn rhannol oherwydd prinder adnoddau, absenoldeb grantiau penodol a'r duedd gan berchnogion i ohirio penderfyniadau datblygu tan i ariannu Amcan 1 ddechrau, roedd Croesawiaith yn llai llwyddiannus yn esgor ar gynlluniau mwy sylweddol fyddai'n gallu newid delwedd y diwydiant.

Mewn ymateb i'r rhwystrau yma ac yng nghyd-destun nifer o ffactorau eraill penderfynwyd ehangu amrediad Croesawiaith trwy geisio dylanwadu ar brif agenda twristiaeth yng Nghymru. Ffrwyth y cyfnod yma yw sawl un o'r argymhellion canlynol.

O safbwynt strategol, byddai'n fanteisiol pe bai **lleoliad twristiaeth** o fewn y Cynulliad Cenedlaethol yn symyd o'r Pwyllgor Economaidd, lle mae'n tueddu i gael ei ymylu gan faterion eraill, i'r **Pwyllgor Diwylliant.** Byddai hynny'n dyrchafu statws y diwydiant croeso, ryddhau mwy o sylw ac amser i'r pwnc a chysylltu'r ddwy agwedd allweddol yma o fywyd Cymru'n llawer agosach. Byddai hyn hefyd yn sbardun i'r Cynulliad gytuno yn fuan ar ddelwedd genedlaethol ac ar frandio Cymru mewn modd urddasol, sy'n gydnaws a dyheadau siaradwyr Cymraeg.

Dylai'r Bwrdd Croeso roi **lle mwy canolog** i'r diwylliant cynhenid yn eu meddylfryd, a **ffocws penodol** i dwristiaeth ddiwylliannol yn eu gweithgareddau, ariannu a'u cyfundrefn. Yn gyffredinol, dylid dwysau mesurau a nodwyd eisoes ynglyn a'r defnydd a wneir o'r diwylliant ieithyddol ar draws y diwydiant, yn bennaf trwy fynnu bod pob busnes sy'n derbyn grant yn gweithredu asesiad diwylliannol ac yn creu **naws Cymreig a Chymraeg gwirioneddol** yn eu cynnyrch. Byddai hynny'n cyfrannu'n sylweddol tuag at greu delwedd mwy nodweddiadol i'n gwlad ac yn fodd i ddenu mwy o ymwelwyr sy'n gwerthfawrogi amrywiaeth dywylliannol - yn enwedig o wledydd tramor.

Yna, mae gwir angen i Brifysgol Cymru rhoi pwyslais newydd ar ein diwylliant cynhenid o safbwynt cynnwys addysg ac ymchwil yn ymwneud a thwristiaeth. Dylid datblygu o leiaf un **canolfan rhagoriaeth** sy'n arbenigo mewn twristiaeth ddiwylliannol a threftadaeth, gan gynnig gradd lawn a gradd uwch yn y ddisgyblaeth - a hynny'n hollol ddwyieithog. Byddai hyn yn fodd i harnesu cyfraniad ysgolhegion o sawl disgyblaeth a dyrchafu ansawdd ein tybiaethau a'n hymdriniaeth o dwristiaeth Ar sail y ffocws yma gellid creu modylau hyfforddi ar y berthynas rhwng y diwylliant Cymraeg a'r diwydiant croeso, addas i'w cyflwyno i bob myfyriwr sy'n astudio twristiaeth neu arlwyo yng ngholegau addysg bellach Cymru, ynghyd ag ystod eang o ddeunyddiau diwylliannol pwrpasol i berchnogion busnes.

Ni ddylid colli golwg ar y ffaith fod arbenigwyr mewn sawl ardal ddwyieithog arall yn Ewrop hefyd yn poeni am effaith twristiaeth ar ieithoedd cynhenid. Gellid defnyddio adnoddau **rhaglenni Ewropeaidd** rhyngwladol megis Interreg III (Ardal yr Iwerydd) i alluogi cydweithio mewn ymchwil, datblygu cynnyrch a hyrwyddo twristiaeth ddiwylliannol gyda sefydliadau academaidd neu ddatblygu economaidd yn yr Iwerddon, yr Alban, Ffryslan, Llydaw, Catalunya ac Euskadi er enghraifft.

Datblygu twristiaeth ddiwylliannol ieithyddol.

Rhoddodd gweithredu rhaglen Croesawiaith yn ystod cyfnod ymgynghori strategol y Bwrdd Croeso gyfle manteisiol hefyd i ystyried anghenion a chyfleoedd ehangach i ddatblygwyr cynhenid ym maes twristiaeth ddiwylliannol. Ymhlith amryw o syniadau datblygu a darddodd o'r rhaglen neu a gynigiwyd gan asiantaethau cydnaws fyddai'n ddelfrydol ar gyfer defnyddio **adnoddau Amcan 1** i sbarduno a chynorthwyo menter siaradwyr Cymraeg, mae'r canlynol :

- **Sefydlu gwesty hyfforddi cenedlaethol** i arloesi ac arwain, gan gynnig hyfforddiant perthnasol, dwyieithog mewn cyd-destun Cymraeg a Chymreig.

- Datblygu **rhwydwaith o letyau gwyrdd** ('lodges') mewn mannau strategol fyddai'n cynnig croeso gwirioneddol Gymraeg - a phersaerniaeth, addurn a dodrefn nodweddiadol Gymreig, gan ddefnyddio dulliau gwyrdd o adeiladu, insiwleiddio a gwresogi.

- **Cadwyn o dai bwyta** cysylltiedig, yn cynnig arlwyo fyddai'n gyfuniad o gynnyrch lleol, dulliau traddodiadol a chyflwyniad creadigol, cyfoes.

- Cysyniad o'r **'ty te' Cymreig**, sef esblygiad safonol o'r caffi cyfarwydd, efallai'n cynnwys elfennau o'r sefydliad tebyg yn y Wladfa.

- Gweithio gyda pherchnogion i grisialu a gweithredu'r cysyniad o **'dafarn Gymreig'** fyddai'n cynnig croeso, diodydd, bwydydd ac adloniant nodweddiadol, gan geisio adfer

yr arfer o ganu digyfeiliant fel mae'r Gwyddelod wedi llwyddo gyda'u cerddoriaeth offerynnol.

- Ymestyn y ddarpariaeth o **letyau ieuenctid 'bacpacyr'** i holl drefi prifysgol Cymru.

- Canolfannau ac **atyniadau sy'n dehongli'r iaith a'r diwylliant** Cymraeg mewn modd bywiog a chyfoes, ac yn nghyd destun cynaladwyedd ieithyddol byd eang.

- Rhwydwaith fechan o ganolfannau **arlwyo ac adloniant traddodiadol ar ffermydd**, gan ddefnyddio talentau perfformio pobl ifainc, ynghyd ag amryw o dai bwyta fferm.

- Creu cadwyn o gartrefi enwogion fel awduron, emynwyr, actorion ac arloeswyr efallai dan y teitl **'Cartefi Cymru'**, gan gyfeirio adnoddau newydd i'w datblygu a'u marchnata.

- Hwyluso grwpiau lleol i ddarparu **croeso** a gweithgareddau **cymunedol** ar sail gwirfoddol, efallai mewn cydweithrediad a grwpiau Leader a'r parciau cenedlaethol.

- Llenwi'r bylchau yng nghalendr **digwyddiadau Cymru** gyda mwy o wyliau sy'n rhoi cyfle i ddefnyddio perfformwyr lleol a hwb i ganu corawl digyfeiliant.

Wrth reswm bydd angen gweithredu'r syniadau uchod mewn modd **diffuant ac urddasol,** gan roi bri i'r iaith, cyflogaeth i'w siaradwyr, cyfleoedd i fentergarwyr dwyieithog a pharch i'r diwylliant.

Dangosodd adroddiad ECTARC Llangollen nol ym 1988 fod gan y cyfryngau torfol, a theledu yn arbennig, yr un math o rym i newid patrymau ieithyddol ag sydd gan y diwydiant croeso. Ond yn hytrach na throi ein cefnau ar y teledu, fel y gwnaethpwyd i raddau helaeth yn achos twristiaeth, mae siaradwyr Cymraeg wedi cofleidio'r cyfrwng gyda brwdfrydedd a'i addasu i ddibenion y diwylliant cyfoes. O wireddu'r raglen ddatblygu a argymhellwyd uchod, mae gennym y potensial i greu **sector Cymraeg** o fewn y **diwydiant croeso** yng Nghymru, yn debyg i'r hyn sydd wedi digwydd ym myd y cyfryngau, a thrwy hynny gynnig yr un cyfleoedd, cyflogaeth, hyder a gwasanaeth ag y gwnaeth S4C o fewn ei sector.

AWJ/01:05:01

Ffynonellau gwybodaeth.

Rhestrir y cyhoeddiadau yn nhrefn y cyfeiriadau yn y testun.

J. Gareth Thomas, *'The Geographical Distribution of the Welsh Language'*,The Geographical Journal CXII (1956).

E.G.Bowen a H. Carter, *'Preliminary Observations on the Distribution of the Welsh Language in the 1971 Census'*.The Geographical Journal 140 (1974).

ECTARC, *'Astudiaeth o Effaith Gymdeithasol, Diwylliannol ac Ieithyddol Twristiaeth yng Nghymru ac ar Gymru'.* (Llangollen a Chaerdydd, 1988).

Bwrdd Croeso Cymru, Twristiaeth Gogledd Cymru, Coleg Pencraig a Menter a Busnes,*'Croesawiaeth Mon: Adroddiad y Cynllun'.* (Aberystwyth, 1993).

Dylan Phillips a Catrin Thomas, *'Effeithiau Twristiaeth ar yr Iaith Gymraeg yng Ngogledd-Orllewin Cymru'*, Canolfan Uwchefrydiau Cymraeg a Cheltaidd Prifysgol

Cymru. (Aberystwyth 2001).

Prifysgol Cymru ar ran Menter a Busnes, *'Cyfrifiad 1991: Dadansoddiad o Siaradwyr Cymraeg yn ol Sector Cyflogaeth'.* (Aberystwyth 1995).

G.H.Naylor & A.W.Jones, *'Tourism in Wales'. (*Caerdydd,1969).

Menter a Busnes, *'Interreg / Croesawiaith: Adroddiad Terfynol y Rhaglen Dair Mlynedd'*. (Aberystwyth 2001).

Bwrdd Croeso Cymru a Menter a Busnes, *'Naws am Le: Canllaw i Arwyddion Dwyieithog'.* (Caerdydd 1995).

Bwrdd Croeso Cymru, *'Cyflawni Ein Potensial: Strategaeth Twristiaeth i Gymru'.* (Caerdydd 2000).

Allan Wynne Jones, 'Twristiaeth Gynaladwy, Gredadwy'. Cymru Wledig, (Y Trallwng, Haf 2000).